

## Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Marian Hughes a'i chwiorydd ym marwolaeth Mrs Anwen Hughes (Saron) a hynny mor fuan ar ôl iddynt gollu eu tad. Hyderwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Gyda thristwch y daeth y newydd hefyd am farwolaeth Mr Robert Williams (Tanyfron) a chydymdeimlwn â Beti Williams a gweddill y teulu yn eu colled. Cyflwynwn hwythau i ofal Duw, gan hyderu y cânt adnabod ei heddwch a'i dangnefedd yn eu hiraeth amdano.
- Parhau yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Doreen Evans a Harold Lloyd (Tanyfron), ac yno hefyd y mae Gwilym Foulkes (Nantglyn), yntau heb fod cystal ei iechyd yn ddiweddar. Yr ydym yn eu cofio, ac yn eu hamgylchynu yn ein gweddïau, gan hyderu y byddant yn teimlo'n well yn fuan iawn. Cyflwynwn y tri ohonynt i'r Arglwydd gan ofyn iddo gysgodi drostynt. Yr un yw'n gweddi dros Barbara Williams (Henllan) sydd wedi treulio rhai wythnosau yn yr Inffirmari y tro hwn eto ond yn gobeithio cael dod adref yn fuan iawn. Treuliodd Elwyn Roberts (Llansannan) ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd yr wythnos ddiwethaf hefyd ond da yw deall ei fod yn well erbyn hyn. Anfonwn ein cofion at yr holl gleifion eraill sy'n ein plith, gan weddio eu bod yn cael eu diogelu a'u cadw y dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau i Eifion ap Llwyd Dafydd (Cefn Meiriadog) ac Eleri ar enedigaeth eu hail fab, Harri, brawd bach i Sion. Dymunwn fendith Duw arnynt fel teulu.

## DVD

Os oes rhywun yn dymuno cael copi DVD o'r Cyfarfod Sefydlu a Chomisiynu a gynhaliwyd nos Sul, Hydref zil, rhwch wybod i Mair (870632) erbyn Hydref 31ain, os gwelwch yn dda. Pris: £5.00.

## I ddod

- **Cyfarfod Blynnyddol i aelodau Capel Hiraethog** yn y Granar nos Lun, Hydref 31ain am 7.30.
- **Nosweithiau Arddangos a Hyrwyddo Gwerslyfrau ac adnoddau Cristnogol** i athrawon Ysgol Sul, arweinwyr eglwysig, gweinidogion a lleygwyr ar gyfer cyflwyno'r gwerslyfrau newydd ar gyfer Ionawr 2012, ac ystod o lyfrau addas ar gyfer cynnal oedfaon: nos Fawrth, Tachwedd 1af - Capel Mawr Dinbych ; bore Sadwrn am 10.30, Tachwedd 5 - Mynydd Seion, Abergele. Mwy o fanylion ar y poster yng nghyntedd eich capel neu trwy ffonio Mair (870632).
- **Penwythnos CIC** (Bl.7-11) yng Ngholeg y Bala, Tachwedd 11eg-13eg. Bydd gostyngiad yn y pris (rhwng £10 - £20) i ieuencid Eglwysi Bro Aled, a bydd trefniadau teithio yn cael eu gwneud i bwy bynnag fydd angen. Cysylltwch â Rhodri i gael ffurflen ganiatâd neu os ydach chi angen mwy o wybodaeth (01745 870522 / 07814 660291). Rhaid dychwelyd y ffurflen i'r Coleg erbyn Hydref 30ain.

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 23<sup>ain</sup> Hydref 2011

*Beth am ddod i Goleg y Bala dydd  
Sadwrn nesaf? Mwy o fanylion o  
dan gyhoeddiadau'r Fro.*

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Wel! Dyna beth oedd siom! O'r uchelderau i lawr i'r dyfnderoedd. Colli Adam Jones a Sam Warbuton a cholli'r gêm. Bu dadansoddi manwl ar bob agwedd – yn cynnwys tras Ffrengig y dyfarnwr! Roedd hyd yn oed Pasqalline yn teimlo'r anghyfiawnder. Cymru, oedd wedi cyfrannu cymaint i'r gystadleuaeth yn methu a rhyw siambls o dîm o Ffrainc drwodd i'r ffeinal! Ond fe ddaw cyfle arall os Duw a'i myn, a gêm fawr, well yfory gobeithio!

Sut mae delio hefo siom, a'r cyfrifoldeb? Teimladau tebyg oedd gan Dafydd ar ôl iddo syrthio i bechod. Wedi siomi'r tîm a'r cefnogwyr a themlo nad oedd dim byd yn medru ei godi o'r pwll. Ond fe sylweddolodd Dafydd bod mwy iddi na siomi cyfeillion a theulu. Yn Salm 51 mae Dafydd yn cyffesu ei bechod mewn edifeirwch oherwydd y mae'n sylweddoli mai yn erbyn Duw y mae ei bechod a'i wrthryfel, ac heb fod yn iawn hefo Duw, nid oes cysur llawn yn unman. Mae'n dweud wrth Dduw:

*“Yn dy erbyn di, ti yn unig, y pechais ... pura fi ag isop fel y byddwyf lan, golch fi a byddaf yn wynach nag eira....”*

Mae Dafydd yn mynegi yn glir yr hyn sydd ar ein calon yn aml – y gri am gael adnabod maddeuant Duw, glanhad mewnol a chael profi llawenydd eto.

Os mai yn erbyn Duw yn unig yr ydym yn pechu, Duw yn unig a fedr ein hadfer ac adfer y llawenydd ynom o fod mewn perthynas heddychlon ag Ef.

Beth am ddarllen Salm 51 yn llawn – mae'n Salm sy'n llawn o gysur – 'calon ddrylliedig, edifeiriol ni ddirmygi' (adn. 17) yw un o'r adnodau mwyaf gobeithiol yn y Beibl i'r sawl sydd dan argyhoeddiad o bechod.

Felly, wrth i ni edrych ymlaen at yr oedfaon heddiw, beth am i ni geisio maddeuant Duw o'r newydd? Mae Duw yn ffyddlon, ac y mae gennym Eiriolwr hefyd gyda Duw sef Iesu Grist, y cyfiawn. Iesu yw yr iawn dros ein pechodau ac ynddo fo y mae gras Duw yn ddyfnach na'n holl bechodau. Mae'n bosibl codi – yn hytrach, y mae'n bosibl i ni gael ein codi o'r dyfnderoedd pennaf a hynny trwy fynd at Dduw – a cheisio ei drugaredd – fel y gwnaeth Dafydd.

Gobeithio i chi gael bendith o fod yn yr amrywiol gyfarfodydd Diolchgarwch. Cefais flas ar bregeth David Owens yn Llanefydd neithiwr a'i arweiniad i ni ystyried mai'r cynhaeaf pwysicaf trwy'r holl fyd yw cynhaeaf Duw. Yn amser Duw fe ddaw ffrwyth a gweddiwn ar Dduw i anfon gweithwyr i'w gynhaeaf.

Llawenydd yw gallu cyhoeddi yn y cyd-destun yma fod Elinor wedi ei derbyn fel Ymgeisydd i'r weinidogaeth yn dilyn ei chyfweliad gyda'r Bwrdd Ymgeiswyr yr wythnos yma – a dymunwn fendith Duw ar ei llwybr o hyn ymlaen.

Cofiwn yn annwyl hefyd am deuluoedd profedigaeth yn y Fro a pharhawn i'w codi gerbron yr orsedd mewn gweddi.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mercher Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- lau **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Sadwrn **Teulu Dedwydd?** - Diwrnod o gymdeithasu, hyfforddiant, ysbrydoli a chefnogaeth i rieni; arweinwyr eglwysig; a gweithwyr plant, ieuentid a theuluoedd yng Ngholeg y Bala o 10:30 – 3:00. Os ydych yn awyddus i rannu car, cysylltwch â Mair (870632), os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf Gan ei bod yn bumed Sul, ni fydd **Oedfa i'r Fro** yn Llansannan heno ond mae croeso i unrhyw un ymuno yn yr oedfa a gynhelir yng Nghapel Bethania, Llansannan am 5.30 pryd y bydd y Parch John Lewis Jones yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch Euros Wyn Jones yn arwain oedfa undebol yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Llun Gŵyl Ddiolchgarwch yng Nghefn Meiriadog: Cynhelir gwasanaeth y plant am 3.30 a bydd oedfa am 7.00 gyda'r Parch Huw John Hughes yn pregethu.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Mercher Oedfa Ddiolchgarwch Undebol yng Nghapel Bethania am 7.30 gyda'r Parch Tom Evans Williams yn pregethu.
- Sul nesaf Bydd Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant am 10.00 a Rhodri yn rhoi anerchiad. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yn dilyn yr oedfa am 11.10. Bydd oedfa yng Nghapel Bethania am 5.30 gyda'r Parch John Lewis Jones yn pregethu.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Gron Ellis yn arwain oedfa ddiolchgarwch yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Yn ystod yr oedfa, cyflwynir rhodd i'r Canon Philip Williams fel gwerthfawrogiad am ei wasanaeth yn y gymdeithas, a bydd lluniaeth ysgafn i bawb yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch R W Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau